

TAFLEN GWYBODAETH

Taliadau Gwasanaeth

Beth yw Taliadau Gwasanaeth?

- taliad a wneir tuag at gostau darparu a chynnal gwasanaethau ychwanegol i breswylwyr sy'n fwy na'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn y rhent arferol
- mae'n golygu'r hawl i ddefnyddio'r gwasanaeth yn hytrach na defnydd o'r gwasanaeth
- eich cyfran o'r costau am y gwasanaethau ychwanegol yr ydym ni yn eu darparu yn eich bloc a/neu stad



NODWCH: Nid ydym yn gwneud elw o Daliadau Gwasanaeth gan mai dim ond adennill gwir gost darparu'r gwasanaeth a wnawn ynghyd â ffi weinyddol am reoli'r gwasanaethau hynny.

Bydd y gwasanaethau ychwanegol yr ydych yn talu amdanynt yn dibynnu ar eich eiddo a'i leoliad.

Disgrifiad o Daliadau Gwasanaeth

Dyma enghreifftiau gwahanol o daliadau gwasanaeth a all ymddangos ar eich anfoneb. Dim ond y gwasanaethau a gynnigir i'ch eiddo fydd yn cael eu codi arna chi.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn:

- **Gwasanaethau Glanhau**
Gall taliadau gwasanaeth glanhau gynnwys glanhau bob man cyffredin fel cynteddau, pen grisiau a grisiau (gall hyn gynnwys y tu allan hefyd e.e. glanhau ffenestri mewn mannau cyffredin)
- **Golau mewn ardaloedd cymunedol**
Gall taliadau gwasanaeth am olau a golau argyfwng mewn mannau cyffredin gynnwys er enghraifft: golau ar gyfer cynteddau mewn mannau cyffredin, cynteddau, pen grisiau a golau diogelwch
- **Torri Glaswellt a Chynnal a Chadw Tir a Meysydd Parcio**
Mae'r tâl gwasanaeth hwn yn cynnwys costau cynnal a chadw blynyddol ar gyfer gerddi, glaswellt, llefydd wedi plannu a meysydd parcio ar eich stad
- **Gwres mewn Mannau Cyffredin**
Bydd costau gwresogi mannau cyffredin yn cynnwys cyfanswm cost gwresogi'r holl fannau cyffredin e.e. cynteddau, ystafelloedd cymunedol ayyb

- **Rheoli Stad**

Gall costau tâl am wasanaeth rheoli diogelwch stad gynnwys gwasanaethu eitemau fel systemau TCC a systemau mynediad ayyb

- **Iechyd a Diogelwch mewn mannau Cyffredin**

Mae'r tâl gwasanaeth hwn yn cyfrannu at gostau fel atal a chanfod tân, archwilio offer trydanol, rheoli plâu ayyb

- **Gwasanaeth Larwm Argyfwng (Ilinell bywyd)**

Efallai y bydd y gwasanaeth hwn yn gymwys os ydych yn byw yn un o dai gwarchod CCG, neu os ydych yn derbyn Gwasanaeth Tai Cefnogol yn y gymuned

- **Gwasanaeth Swyddog Tai Cefnogol**

Efallai y bydd y gwasanaeth hwn yn gymwys os ydych yn byw yn un o dai gwarchod CCG, neu os ydych yn derbyn Gwasanaeth Tai Cefnogol yn y gymuned

- **Warden Safle**

I ddarparu cymorth ar y safle

Os ydych yn cael y gwasanaethau uchod ac yn anhapus am unrhyw reswm, cysylltwch gyda ni i drafod eich pryderon cyn gynted ag sy'n bosib.



NODWCH: Nid yw'r gwasanaethau hyn ar gael ym mhob safle.

Costau Eraill

Bydd ffi rheoli o 10% yn cael ei gynnwys yn eich anfoneb taliadau gwasanaeth. Bydd y tâl hwn yn cyfrannu at rheoli'r gwasanaethau a ddarperir.

Cyfrifo Taliadau Gwasanaeth

Bydd y taliadau gwasanaeth yn cael eu cyfrifo ar sail amcangyfrif, yn seiliedig ar wir gost y flwyddyn flaenorol.

Yn parhau drosodd >>



T A F L E N G W Y B O D A E T H

Taliadau Gwasanaeth

Talu'r Taliadau Gwasanaeth

Byddwch yn talu'r taliadau gyda'ch rhent. Bydd y rhan fwyaf o'r taliadau gwasanaeth hyn yn cael eu talu gan Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol os ydych yn gymwys i gael cymorth.

Os ydych yn meddwl eich bod am gael trafferth talu eich taliadau gwasanaeth cysylltwch gyda'r Adran Rhent ac Incwm cyn gynted ag sy'n bosib.

Am fwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth am unrhyw beth ar y daflen hon, neu os hoffech gael y daflen hon ar ffurf wahanol fel Braille, ffont mwy neu mewn iaith wahanol cysylltwch gyda ni drwy **ymholiadau@ccgwynedd.org.uk**, **0300 123 8084** neu **www.ccgwynedd.org**.

